PET(4) WPI 02
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Nia Rhosier

[redacted]

Abigail Phillips,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
BAE CAERDYDD,
CF99 1NA
Tachwedd 1af 2011

Annwyl Abigail Phillips,

**ACADEMI HEDDWCH I GYMRU**

Fel Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, ac yn bersonol, hoffwn ddatgan fy nghefnogaeth lwyr i'r syniad o sefydlu Academi Heddwch i Gymru, er mwyn gweld CYMRU yn datgan yn glir wrth Lywodraeth Prydain yn San Steffan nad ydyw am gael ei llusgo byth eto i ryfeloedd megis Irac ac Afganistan, na bod yn rhan o'r feddylfryd militaraidd sy'n parhau yn gryf ymysg y rhai sy'n ein 'harwain' o Lundain.

Cwbl anheg ac anfoesol yw'r drefn bresennol o filitareiddio CYMRU gyda phresenoldeb yn Aberporth, Sain Tathan, Epynt, Y Fali a Llanbedr ger Harlech, a'r arfer ddieflig o hyfforddi gwyr a gwragedd yn Aberporth ar sut i ddefnyddio awyrennau di-beilot (Drones) – awyrennau sydd eisoes wedi lladd miloedd o bobl cyffredin a phlant diniwed mewn sawl gwlad.

Fel gwlad fechan, gall CYMRU rhoi arweiniad i Ewrop a'r byd trwy greu diwylliant heddwch yn lle diwylliant rhyfel; mae ganddi hanes hir ac anrhydeddus o geisio hybu heddwch – heddychwyr amlwg fel Richard Roberts, Ysgrifennydd cyntaf Cymdeithas y Cymod yn 1914, George M.LL.Davies, Henry Richard, Samuel Roberts, Gwynfor Evans - hefyd gweinidogion yr efengyl a safodd fel gwrthwynebwyr cydwybodol yn y ddau ryfel byd, Gwilym Davies, a gychwynodd Neges Heddwch Plant Cymru i Blant y Byd a'r rhai a sefydlodd Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen i enwi ond rhai, ac mae aelodau o Gymdeithas y Cymod a grwpiau heddwch eraill yn tystiolaethu heddiw trwy gynnal oedfa edifeirwch ar Epynt yn flynyddol a llawer o gyfarfodydd a raliàu trwy'r wlad megis y daith gerdded ddiweddar o Aberporth i Gaerfyrddin, a'r arwyddo o'r Llyfr Gwyn Heddwch, sy'n dangos awydd gan lawer yng Nghymru heddiw i orseddu heddwch a chyfiawnder i'n pobl.

Dro yn ôl, cyflwynwyd deiseb yn annog y Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu Academi Heddwch i Gymru, a chyn hir, yn ol a ddeallaf, bydd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn ystyried y mater holl bwysig hwn. Byddaf yn ddiolchgar os byddwch yn cyfleu fy sylwadau i'r Pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir,

Nia Rhosier (Nia Rhosier)